# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 2

TRWYDDEDU SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL ETC.

*Torri amod*

### 21 Pŵer i gymryd camau brys

(1) Caiff awdurdod lleol sydd wedi dyroddi trwydded safle gymryd camau mewn perthynas ag unrhyw dir sy'n ffurfio'r safle os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol—

(a) bod perchennog y tir yn methu neu wedi methu cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o amodau'r drwydded safle, a

(b) bod risg ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson sydd ar y tir neu a all fod ar y tir o ganlyniad i'r methiant hwnnw.

(2) Y camau y caiff awdurdod lleol eu cymryd o dan yr adran hon (y cyfeirir atynt yn yr adran hon fel "camau brys") yw unrhyw gamau y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol eu bod yn angenrheidiol er mwyn dileu'r risg sydd ar fin digwydd o niwed difrifol a grybwyllir yn is-adran (1)(b).

(3) Pan fo awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau brys, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno i berchennog y tir hysbysiad—

(a) sy'n nodi'r tir y mae'n ymwneud ag ef,

(b) y'n nodi bod yr awdurdod lleol yn bwriadu mynd i'r tir,

(c) sy'n disgrifio'r camau brys y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd ar y tir,

(d) os nad un o swyddogion yr awdurdod lleol yw'r person y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei awdurdodi i gymryd y camau ar ei ran, sy'n nodi enw'r person hwnnw, ac

(e) sy'n pennu'r pwerau o dan yr adran hon ac o dan adran 32 fel y pwerau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu mynd i'r tir odanynt.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Adran 21. (See end of Document for details)*

(4) Caiff hysbysiad o dan is-adran (3) nodi y byddai'r awdurdod lleol yn bwriadu gwneud cais am warant o dan adran 32(3) pe bai mynediad i'r tir yn cael ei wrthod.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (3) gael ei gyflwyno yn ddigon cynnar cyn bod yr awdurdod lleol yn bwriadu mynd i'r tir er mwyn rhoi hysbysiad rhesymol i berchennog y tir am y bwriad i fynd iddo.

(6) Mewn achos pan fo'r awdurdod lleol yn awdurdodi person heblaw un o swyddogion yr awdurdod lleol i gymryd y camau brys ar ei ran, mae'r cyfeiriad yn adran 32(1) at swyddog awdurdodedig i'r awdurdod lleol yn cynnwys y person hwnnw.

(7) Mae adran 32, o'i chymhwyso at achos yn yr adran hon, yn effeithiol fel pe bai—

(a) y geiriau "ar bob adeg resymol" yn is-adran (1), a

(b) is-adran (2),

wedi eu hepgor.

(8) O fewn y cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn dechrau cymryd y camau brys, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno i berchennog y tir hysbysiad—

(a) sy'n disgrifio'r risg sydd ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch personau sydd ar y tir neu a all fod ar y tir,

(b) sy'n disgrifio'r camau brys sydd wedi eu cymryd gan yr awdurdod lleol ar y tir, ac unrhyw gamau brys sydd i'w cymryd gan yr awdurdod lleol ar y tir,

(c) sy'n nodi pryd y dechreuodd yr awdurdod lleol gymryd y camau brys a phryd y mae'r awdurdod lleol yn disgwyl iddynt gael eu cwblhau,

(d) os nad un o swyddogion yr awdurdod lleol yw'r person y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei awdurdodi i gymryd y camau ar ei ran, sy'n nodi enw'r person hwnnw, ac

(e) sy'n esbonio'r hawl i apelio a roddir gan is-adran (9).

(9) Caiff perchennog tir y mae awdurdod lleol wedi cymryd neu yn cymryd camau brys mewn perthynas ag ef apelio at dribiwnlys eiddo preswyl yn erbyn cymryd y camau gan yr awdurdod lleol (gweler adran 23).

(10) Caniateir apelio ar y seiliau canlynol—

(a) nad oedd risg ar fin digwydd o niwed difrifol fel y'i crybwyllir yn is-adran (1)(b) (neu, os yw'r camau'n dal i gael eu cymryd, nad oes risg o'r fath), neu

(b) nad oedd angen y camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd er mwyn dileu'r risg a oedd ar fin digwydd o niwed difrifol a grybwyllir yn is-adran (1)(b) (neu, os yw'r camau'n dal i gael eu cymryd, nad oes eu hangen er mwyn dileu'r risg).

(11) Mae'r dulliau a ganiateir ar gyfer cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon yn cynnwys ei osod ar fan amlwg ym mhrif fynedfa'r tir neu yn agos ati.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 64(2)**

**I2** A. 21 mewn grym ar 1.10.2014 gan O.S. 2014/11, **ergl. 3(1)(b)** (ynghyd ag ergl. 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Adran 21.